**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**CYNLLUNIAU LLEIHAU TROSEDD – ADRODDIAD AR GYNNYDD**

**Diben**

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Mawrth, dywedodd y Gweinidog y byddai'n darparu adroddiad ar hynt y cynlluniau lleihau trosedd, gan gynnwys yr arian sydd ar gael erbyn hyn o'r Swyddfa Gartref o dan y Gronfa Datblygu Partneriaethau. Hefyd, yn unol â dymuniad y Pwyllgor am gyflwyniad oddi wrth yr heddlu, gofynnwyd i Keith Turner, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, a Chadeirydd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru, annerch y Pwyllgor yn y dyfodol. Nid oedd ar gael ar gyfer y cyfarfod hwn.

**Crynodeb**

2. Ceir yn y papur hwn gefndir yr hyn a wneir gan y Cynulliad i leihau trosedd; y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y Rhaglen Lleihau Trosedd yng Nghymru ers y tro diwethaf iddi gael eu hystyried gan y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr, a manylion am y cyllid newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

**Amseru**

3. Cyflwynir y papur yn unol â dymuniad y Pwyllgor am drafodaeth fuan.

**Cefndir**

Rhagarweiniad

4. Er mai'r Ysgrifennydd Cartref sy'n gyfrifol yn statudol am drosedd ac anhrefn, mae Gwell Cymru yn nodi fel un o'i flaenoriaethau 'helpu pobl leol, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy'n anfygythiol a heb drosedd'. Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n cymryd y cyfrifoldeb dros y maes yn y Cabinet. Nid yw cyfrifoldebau'r Gweinidog yn ymestyn i faterion gweithredol yr heddlu, sydd yn parhau

gyda'r Swyddfa Gartref, nac i droseddwyr ifanc, sydd yn gyfrifoldeb ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae David A'Herne, Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd Cymru, yn cydweithio'n agos â'r Gweinidog a'r Cynulliad er mwyn integreiddio materion yn ymwneud â throsedd ac anhrefn i bolisïau'r Cynulliad.

Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

5. Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yw conglfaen polisi'r Cynulliad ar fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn a chreu cymunedau mwy diogel. Yn ganolog i'r Ddeddf oedd creu'r partneriaethau lleihau trosedd ac anhrefn lleol; roedd y Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb newydd ar yr awdurdodau lleol a'r heddlu fel partneriaid allweddol a fyddai'n cydweithio â'r gwasanaeth prawf, yr awdurdodau iechyd a phartneriaid eraill i ddatblygu strategaethau lleol i leihau trosedd ac anhrefn. Erbyn hyn, mae'r 22 strategaeth yng Nghymru yn cael eu rhoi ar waith, a chânt eu hadolygu yn 2002. Mae'r Ddeddf yn galw ar y Partneriaethau i gynnal adolygiad o'r strategaethau sydd yn eu lle ar hyn o bryd erbyn 2002, ac mae nifer wedi cychwyn eisoes ar archwiliadau newydd o drosedd ac anhrefn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r adolygiad.

6. Trefnodd y Cynulliad seminar archwilio y mis diwethaf er mwyn cynorthwyo'r partneriaethau wrth iddynt agosáu at y cyfnod adolygu. Trefnwyd hyfforddiant ar ffurf seminar hefyd er mwyn eu helpu i wneud lleihau trosedd yn rhan ganolog o'u gwaith, yn unol ag Adran 17 o'r Ddeddf; cynhaliwyd semniar yng Ngogledd Cymru ym mis Mawrth, ac mae achlysur yn Ne Cymru wedi'i drefnu ar gyfer y mis hwn.

Rhaglen Lleihau Trosedd

7. Mae Rhaglen Lleihau Trosedd y Llywodraeth ar gyfer Cymru a Lloegr, a fydd yn costio cyfanswm o £400 miliwn dros 3 blynedd, yn buddsoddi mewn amrywiaeth o fentrau sy'n effeithio'n sylweddol ac yn barhaus ar y gyfradd droseddu. Mae £153 miliwn ar gael ar gyfer teledu cylch cyfyng (CCTV), ac mae £3 miliwn wedi ei glustnodi ar gyfer gosod CCTV ar ystadau tai cymdeithasol yng Nghymru. Hyd yn hyn, mae prosiectau Cymru wedi denu £6.3 miliwn o gyllid gan y Rhaglen. Mae'r manylion yn **Atodiad A**. Mae tîm bychan o swyddogion y Cynulliad yn derbyn cyllid gan y Swyddfa Gartref i reoli'r Rhaglen fel ei hasiant yng Nghymru. Maent yn cyfrannu at y meini prawf ar gyfer y gwahanol fentrau, yn rhan o'r broses ddethol ac yn monitro'r prosiectau. Yn ogystal â'r £6.3 miliwn y soniwyd amdano uchod, mae 33 o gynlluniau gosod CCTV yng Nghymru wedi'u rhoi ar y rhestr fer o dan Rownd 2 y fenter. Os ceir ceisiadau terfynol derbyniol ganddynt oll, fe fydd £5.8 miliwn pellach yn dod i Gymru, £1.2 miliwn ar gyfer gosod CCTV ar ystadau tai cymdeithasol.

Cronfa Datblygu Partneriaethau

8. Mae’r Rhaglen Lleihau Trosedd yn dod i ben ym mis Mawrth 2002 a dwy gronfa’n cymryd ei lle: Cronfa Datblygu Partneriaethau, a gychwynodd ym mis Ebrill eleni, a Chronfa Cymunedau Mwy Diogel fydd yn parhau hyd fis Ebrill 2002. Cafodd Cronfa Datblygu Partneriaeth ei chyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Cartref yng Nghynhadledd y Blaid Lafur y llynedd. Mae’n cynnwys £20 miliwn ar gyfer 2001-02 a phob un o’r 2 flynedd wedi hynny. Pwrpas y Gronfa yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn ac eraill sy’n gweithredu prosiectau sy’n anelu at fynd i’r afael â phroblemau lleol yn ymwneud â throsedd ac anhrefn. Mae’r cyllid wedi’i ddyrannu rhwng Cymru a rhanbarthau Lloegr yn ôl fformwla sy’n adlewyrchu nifer y partneriaethau a lefel y troseddu. Mae’r dyraniadau i’r 10 Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd Rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr wedi’u cyhoeddi; bydd Cyfarwyddwr Lleihau Trosedd Cymru yn derbyn £1.2 miliwn.

<u>Cyllid i fynd i’r afael â Throsedd sy’n gysylltiedig â Chyffuriau</u>

9. Ar 5 Ebrill, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y bydd £220 miliwn o arian newydd ar gael ar gyfer prosiectau sy’n mynd i’r afael â throsedd sy’n gysylltiedig â chyffuriau. Roedd y £220 miliwn ychwanegol dros 3 blynedd ar gyfer Partneriaethau Trosedd ac Anhrefn yng Nghymru a Lloegr fel rhan o’r pecyn o fesurau i fynd i’r afael â chyffuriau a throsedd cysylltiedig, yn rhan o gyhoeddiad Cyllideb 2001. Hefyd, mae £50 miliwn yn ychwanegol ar gyfer mwy o brofi am gyffuriau yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Lloegr. Nid yw’n bosibl eto i fesur faint o’r adnoddau hyn y bydd Cymru’n eu derbyn.

10. Bwriad yr arian yw cynorthwyo’r heddlu a chymunedau lleol i chwalu’r marchnadoedd cyffuriau lleol, cael gwared ar y gwerthwyr cyffuriau, a chryfhau cydweithio lleol er mwyn delio â’r broblem hon. Y nod yw y dylai’r partneriaethau lleol allu defnyddio’r arian yn hyblyg ac yn ddyfeisgar fel y caiff ei wario er enghraifft, ar orsafoedd heddlu teithiol, plismona amlwg yn y mannau nodedig am gyffuriau, gweithredu wedi’i dargedu er mwyn cwtogi ar yr incwm y mae’r rhai sy’n gaeth i gyffuriau yn ei gael o ganlyniad i ladrata, wardeniaid cymdogaeth, ymgyrchoedd triwantiaeth ychwanegol a CCTV.

11. Gellir defnyddio’r arian ar un amod yn unig sef bod y Cyfarwyddwyr Lleihau Trosedd, Cadlywydd Uned Rheolaeth Sylfaenol yr Heddlu a’r Tîm Gweithredu Cyffuriau ac Alcohol yn cytuno ar strategaeth ar gyfer defnyddio’r arian hwnnw. Bydd pob un o’r Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn yn derbyn arian; ni fydd yr arian yn cael ei ddyrannu’n gyfartal ond yn hytrach yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sydd â’r problemau mwyaf. Bydd pob partneriaeth yn derbyn hyd at £0.5 miliwn, a’r rhai sy’n cynnwys ardaloedd sy’n fwy o faint a’r problemau mwyaf yn derbyn hyd at £1 miliwn. Nid yw’r union drefniadau ar gyfer dyrannu’r cyllid wedi’u gwneud eto, ond disgwylir y bydd y rhaglen yn cychwyn erbyn mis Gorffennaf.

**Cydymffurfiaeth**

12. Am nad yw’r mentrau hyn yn effeithio ar bleidlais y Cynulliad, nid oes goblygiadau o ran

cydymffurfiaeth na chynllunio ariannol.

**Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor**

13. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys eu papur a'i ddefnyddio fel canolbwynt ar gyfer y drafodaeth.

**Cyswllt**

David A'Herne, yr Uned Lleihau Trosedd, est 0030.

**ATODIAD A**

**<u>Rhaglen Lleihau Trosedd</u>**

**<u>Prosiectau Llwyddiannus yng Nghymru</u>**

**1. Plismona wedi'i Dargedu**

Grantiau i'r heddlu ar gyfer mannau nodedig am drosedd. Cymeradwywyd dau brosiect i Gymru o dan Rownd 1: £500k ar gyfer prosiect yn Rhondda Cynon Taf i leihau problemau trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig â chartrefi plant a £498k ar gyfer prosiect i leihau trais ar strydoedd Caerdydd sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r ddau brosiect ar waith, ac mae'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu eu bod eisoes yn cael effaith. O dan Rownd 2, mae cais gan Heddlu Gogledd Cymru i ariannu dull unedig o leihau trosedd mewn ystad ddiwydiannol fawr yn Wrecsam yn derbyn grant o £188k.

**2. Lleihau Bwrglera**

Yn Rownd 1, cymeradwywyd un cais o Gymru - £60k ar gyfer prosiect yn Llaneirwg, Caerdydd. Cymeradwywyd pedwar prosiect o dan Rownd 2 – tri ar gyfer Gogledd Cymru yn denu £33k ac un ar gyfer Caerau, Pen-y-bont ar Ogwr, yn denu £12k. Mae pum cais o Gymru'n cael eu hystyried o dan Rownd 3.

**3. Gwaith Ymyrryd mewn Ysgolion**

Cymeradwywyd pum prosiect o Gymru sy'n cwmpasu 9 ysgol - £1.06 miliwn i gynorthwyo'r gwaith o wella rheolaeth ysgolion ar ymddygiad disgyblion a lleihau bwlian, triwantiaeth a gwaharddiadau ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd, Abertyswg, Llanelli ac Abertawe. Mae'r prosiectau ar waith.

**4. CCTV**

Cymeradwywyd grantiau o £2.6 miliwn i Gymru, gan gynnwys un dyfarniad o £1 miliwn i Ben-y-bont ar Ogwr er mwyn gwella ac ehangu eu darpariaeth yng nghanol y dref a darpariaeth i ofalu am 3 maes parcio a theithio a maes parcio i dwristiaid yn Rest Bay, Porthcawl. Mae 33 o geisiadau o Gymru ar y rhestr fer o dan Rownd 2, a bellach rhaid iddynt baratoi ceisiadau terfynol; os cânt eu cymeradwyo, bydd £5.8 miliwn ar gael gan gynnwys £1.2 ar gyfer gosod CCTV ar ystadau tai cymdeithasol.

**5. Trais yn y Cartref**

Derbyniwyd deuddeg cais gan grwpiau o Gymru gyda phrosiectau i leihau trais yn y cartref neu drais rhywiol gan droseddwyr hysbys. Cyhoeddwyd ar 10 Gorffennaf bod gwerth £6 miliwn o geisiadau wedi eu cymeradwyo gan gynnwys dau brosiect o Gymru, £21k ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a £11.7k ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Penderfynodd y Swyddfa Cartref ail-ystyried rhai o'r prosiectau aflwyddiannus y llynedd, ac fe gymeradwywyd 7 prosiect arall o Gymru sy'n gyfanswm o £734,227.

**6. Wardeiniaid Cymdogaeth**

Gwahoddwyd ceisiadau mewn perthynas â phrosiectau Wardeiniaid Cymdogaethau

arfaethedig neu bresennol. Roedd cyfanswm o £4.5 miliwn o arian y Rhaglen Lleihau Trosedd ar gael ar gyfer hyn a chlustnodwyd £300k ar gyfer prosiectau yng Nghymru. Mae pum prosiect wedi'u cymeradwyo ar gyfer Merthyr Tudful, Abertawe, Caernarfon, Caerffili a Chaerdydd.

**7. On Track – Rhaglen Aml-Ymyriad**

Rhaglen lleihau trosedd aml-ymyriad yw 'On-Track' sydd wedi'i thargedu at blant sydd mewn perygl o droseddu. Anelir y rhaglen at blant rhwng 4-11 oed a chaiff ei rhedeg am gyfnod o hyd at 7 mlynedd. Mae'r prosiectau'n derbyn cyllid o hyd at £400,000 ar gyfer pob un o'r 3 blynedd cyntaf a bydd yr arian yn lleihau'n raddol wedi hynny. Mae dau brosiect sef Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf wedi llwyddo i ddenu cyllid o dros £1 miliwn dros gyfnod y prosiectau.